**Tasglu Tai Fforddiadwy: argymhellion – diweddariad ar gynnydd – Mawrth 2026**

[Tasglu Tai Fforddiadwy: adroddiad ac argymhellion | LLYW. CYMRAEG]

| **Arweinyddiaeth leol** | **Diweddariad ar gynnydd** |
|---|---|
| 1. Mae angen i awdurdodau lleol flaenoriaethu ceisiadau am gartrefi fforddiadwy newydd i gydnabod yr argyfwng tai. | Mewn cyfarfodydd bord gron rhanbarthol Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol – a gynhaliwyd ledled Cymru gydag aelodau a swyddogion arweiniol tai i'r awdurdodau lleol (ac a fynychwyd hefyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) – nodwyd yn gyffredinol bod cael mwy o gartrefi yn un o brif flaenoriaethau'r awdurdodau lleol.<br><br>Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch yr angen am dai o bob math o ddeiliadaeth. Mae enghreifftiau o safleoedd datblygu cymysg (rhent cymdeithasol, rhan-berchnogaeth a chartrefi sydd ar werth ar y farchnad) wedi dangos llwybr lle mae arweinyddiaeth ac atebolrwydd awdurdod cyfan wedi helpu i symud ceisiadau ymlaen drwy'r system yn gyflym. |
| 2. Dylid dyrannu uwch swyddog i bob prosiect i ddarparu rheolaeth prosiect ar draws y Cyngor ac i gydlynu penderfyniadau ar draws yr awdurdod lleol. Dylent gael eu rhestru'n gyhoeddus fel un pwynt cyswllt a bod yn gyfrifol am gynnydd cynllun – a chael eu grymuso i wneud penderfyniadau pan fydd cyfaddawdau i'w gwneud mewn prosiect. | O ran dull cyngor gyfan o reoli prosiectau, nodwyd bod hyn yn fwy llwyddiannus pan fo'r prif dimau fel y tîm cynllunio, tîm yr amgylchedd a'r tîm tai wedi'u lleoli o dan yr un uwch swyddog neu'r un adran.<br><br>Yn ystod cyfarfodydd bord gron rhanbarthol Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ledled Cymru, rydym wedi clywed bod cyfarfodydd neu fforymau 'tîm datblygu' amlddisgyblaethol – lle mae ymgyngoreion statudol hefyd yn bresennol – yn cael eu cynnal ar draws yr awdurdodau lleol fel mater o drefn. Mae rhai awdurdodau lleol bellach yn recriwtio'n weithredol er mwyn llenwi rolau 'codi rhwystrau' pwrpasol hefyd. |

| | |
|---|---|
| | Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau lleol rannu a thrafod arferion gorau, modelau gweithredu a rhestrau o gyfranogwyr yn rheolaidd fel bod modd myfyrio ar welliannau posibl a gwahanol ddulliau. |
| 3. Dylai'r uwch swyddog cyfrifol gyfathrebu'n glir â'r ymgeisydd, rhanddeiliaid allanol allweddol a phartneriaid cyflenwi. Dylent alw cyfarfodydd 'tîm datblygu' amlddisgyblaethol yn rheolaidd gyda'r holl benderfynwyr, a chanolbwyntio ar ddatrys materion sy'n peri oedi yn y cynnydd. Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys priffyrdd, tirwedd, Corff Cymeradwyo SuDS (SAB), dylunio trefol a thirwedd, ecoleg, swyddogion geo-dechnegol – y mae angen iddynt gymeradwyo cynlluniau safleoedd a dyluniadau allweddol – yn ogystal â chysylltiadau allweddol yn Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Cadw a'r Parciau Cenedlaethol yn ôl yr angen. Dylai pob awdurdod lleol gael un Prif Swyddog Dylunio Trefol sy'n cyfrannu at y broses. Dylai landlordiaid cymdeithasol ymgysylltu â Chomisiwn Dylunio Cymru yn gynnar yn y datblygiad. | Gweler uchod.<br><br>Mae landlordiaid cymdeithasol a Chomisiwn Dylunio Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu'n fwy â'i gilydd yn ystod y camau cynnar, yn enwedig ar gynlluniau strategol mwy o faint, a phan fo dulliau newydd o greu lleoedd yn bwysig. |
| 4. Rhaid i ddatblygwyr ofyn am gyngor cynllunio 'cyn gwneud cais' gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar bob cynnig 'mawr'. Dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol | Mae graddau'r ymgysylltu, a'r perthnasoedd rhwng datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol, yn amrywio. Mewn adborth o drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol wedi'u cael â datblygwyr nodwyd y byddent yn falch pe bai modd dychwelyd i fwy o |

| | |
|---|---|
| gynnig cyfarfod tîm amlddisgyblaethol a darparu cyngor clir ac amserol ar yr hyn a ddisgwylir gan ymgeiswyr, gan wahaniaethu rhwng newidiadau/ceisiadau hanfodol i wneud y cynllun yn dderbyniol a newidiadau/ceisiadau dymunol i wneud y cynllun yn well, ac amlygu materion hysbys neu debygol. Heblaw mewn amgylchiadau eithriadol pan fo materion yn codi na ellid yn rhesymol fod wedi gwybod amdanynt yn ystod y cam 'cyn gwneud cais', dylid cadw at y cyngor a roddir. Dylid cyfathrebu'n glir, a dylai pob parti weithio ar sail 'dim byd annisgwyl'. | ymgysylltu wyneb yn wyneb, yn enwedig yn ystod y cam cyn cynllunio, ac mae'r neges hon wedi cael ei chyfleu i'r awdurdodau lleol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi fuddsoddi £9 miliwn mewn gwasanaethau a ddarperir gan Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru yn arwain at welliannau mewn adnoddau a chapasiti. Bydd rheoliadau newydd ynglŷn â ffioedd cynllunio hefyd yn helpu i gynhyrchu refeniw pellach a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cynllunio. |
| **Arweinyddiaeth systemau** | |
| 5. Mae angen i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sicrhau bod ganddynt gysylltiadau cryf a'u bod yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid i gyflawni mewn perthynas ag anghenion lleol – dylai hyn gynnwys cyfathrebu'n rheolaidd, cydlafurio'n agosach a chynllunio ar y cyd. | Mewn ymateb i'r ffaith bod y Tasglu wedi nodi bod nifer o flaenoriaethau gwahanol rhwng y cynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, mae cyfarfodydd bord gron rhanbarthol Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol wedi dod â phartneriaid ynghyd i bwysleisio pa mor bwysig yw arweinyddiaeth ar y cyd o ran diwallu anghenion lleol. |
| 6. Mae angen i Lywodraeth Cymru gyfleu ei chyfeiriad yn effeithiol – gan gydnabod cyfaddawdau a blaenoriaethu'n glir. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynnull uwchgynadleddau rhanbarthol, gan gynnwys yr holl bartneriaid cyflenwi | Mae trafodaethau ynghylch pwysau wedi cael eu cynnal yn y cyfarfodydd rhanbarthol diweddar gyda Awdurdodau Lleol. Mae hyn wedi cynnwys myfyrio ar hyblygrwydd a phragmatigrwydd o ran safonau yn ogystal ag asesiadau o angen tai, yn enwedig drwy broses yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. |

| | |
|---|---|
| cyhoeddus a phreifat, i arddangos y cyllid sydd ar gael, ac astudiaethau achos i rannu arferion da, a darparu gweithdai ar gyfer prosiectau posibl. | Nodwyd bod Asesiadau o’r Farchnad Dai Leol yn hanfodol i’r gwaith o bennu gofynion tai lleol, eu bod yn rhan allweddol o’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer dyfarnu a dyrannu cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, a’u bod hefyd yn llywio Cynlluniau Datblygu Lleol – a Chynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol.<br><br>Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol hefyd wedi cynnal trafodaethau bord gron gydag adeiladwyr tai ar faterion sy’n cwmpasu hyfywedd, cyllid, cynllunio a sgiliau.<br><br>Mae nifer o lwybrau ffurfiol ac anffurfiol sydd eisoes yn bodoli sy'n galluogi rhannu manylion am gyllid sydd ar gael, arfer da ac yn darparu cymorth a hyfforddiant ac ati. Ar lefel swyddogol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu cwmpas ei Rhaglen Gyflawni i Awdurdodau Lleol (sy’n cynorthwyo’r 11 awdurdod lleol yng Nghymru sydd â stoc dai i adeiladu cartrefi cymdeithasol/fforddiadwy newydd yn gyflym ac ar raddfa fawr) fel ei bod hefyd yn cynnwys darparu platfform ymgysylltu a phwynt cyswllt cyntaf i’r 11 awdurdod lleol nad ydynt yn dal stoc. |
| 7. Mae gwerth parhaus i ‘wirio a herio’. Dylai Aelodau Cabinet Cyfrifol y Cynghorau gyfarfod ddwywaith y flwyddyn â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i godi a mynd i’r afael ag unrhyw faterion sy’n dod i’r amlwg ac sy’n ymwneud â chynnydd o ran darparu tai fforddiadwy. | Mae hyn yn digwydd drwy gyfarfodydd bord gron rheolaidd o dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, a thrwy gyfarfodydd y Rhwydwaith Cabinet Tai a gynhelir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). |
| 8. Mae angen i Cartrefi Cymunedol Cymru a CLILC chwarae rhan fwy mewn herio pob landlord cymdeithasol cofrestredig a phob awdurdod lleol sy’n dal | Mae’r amcanestyniadau tai fforddiadwy diweddaraf (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025) bellach yn dangos bod gan yr awdurdodau lleol a’r |

| | |
|---|---|
| stoc i gyflwyno cyfres uchelgeisiol o gynlluniau newydd. | landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyflenwad uchelgeisiol o gartrefi newydd, sy'n ymestyn i mewn i 2027.<br><br>data-showing-progress-towards-the-20000-affordable-homes-target-april-2021-to-march-2027.xlsx |
| **Symleiddio'r broses** | |
| 9. Cytundebau safonol ar gyfer darparu seilwaith yn unol â'r safonau technegol presennol, y mae ymgeiswyr yn cytuno iddynt. Dylai hyn gynnwys cytundebau Priffyrdd Adran 278/S38 (yn unol â'r Llawlyfr ar gyfer Strydoedd); cytundebau mabwysiadu SAB (Corff Cymeradwyo SuDS) a sut mae amodau SAB yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau cysondeb ac i arbed amser. | Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn asesu dichonoldeb cynnal adolygiad llawn o'r gyfres 'Safonau Cyffredin' o ddogfennau Priffyrdd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.<br><br>Gweler argymhelliad 14 ynghylch dogfennau sy'n gysylltiedig â Chyrff Cymeradwyo SuDS. |
| 10. Mae datblygwyr wedi dweud wrth y Tasglu fod angen bod yn dryloyw ynghylch sut mae symiau gohiriedig yn cael eu cyfrifo. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol gyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n nodi eu gofynion a'u rhesymeg. | Gweler argymhelliad 14 ynghylch dogfennau sy'n gysylltiedig â Chyrff Cymeradwyo SuDS, gan gynnwys canllawiau ar gyfer symiau gohiriedig. |
| 11. Mae methodoleg safonol ar gyfer arfarniadau hyfywedd yn bodoli drwy'r model RICS / Hutchinson Burrows. Fodd bynnag, mae elfennau dadleuol o ran sut mae hyn yn cael ei gymhwyso yn achos | Mae Edward Shepherd a Sahiti Bhalla o Brifysgol Caerdydd wedi cyhoeddi'r adroddiad canlynol ar Gipio Gwerth Tir yng Nghymru:<br>Shepherd_&_Bhalla_LVC_in_Wales_Report_Jan_2026.pdf |

| | |
|---|---|
| gwerth y tir meincnod a'r costau adeiladu. Mae angen mireinio'r modelau ymhellach i fod yn berthnasol i amgylchiadau Cymru, a dylai Llywodraeth Cymru gynnull gweithgor i gael cytundeb. | Cynigir bod gweithgor o aelodau'r Grŵp Gweithredu Argymhellion yn gweithio gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd a Burrows-Hutchinson Ltd i weithio drwy'r goblygiadau o ran y polisi ac ymarfer, gyda'r bwriad o roi cyngor i Weinidogion Cymru. |
| 12. Dylid cytuno ar ddull gweithredu templed ar gyfer cytundebau Adran 106, gan gynnwys cymalau tai fforddiadwy. Templed safonol ar gyfer pob awdurdod cynllunio fydd hwn, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol, yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr preifat. Dylid gosod terfyn amser er mwyn dod i gytundeb. | Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, gan weithio ochr yn ochr â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF), Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB), Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC), Swyddogion Cynllunio Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), wedi ymgymryd â gwaith i archwilio'n fanylach ddulliau ac arferion cyfredol, yn enwedig mewn perthynas â chytundebau Adran 106 (S106) a chytundebau Priffyrdd.<br><br>Nid yw'r gwaith hwn wedi dod i ben, ond yr hyn sy'n glir yw y bydd hi bob amser yn debygol y bydd elfen o ystyriaeth bwrpasol yn perthyn i'r gwaith o ddrafftio cytundebau fel eu bod yn gweddu i'r angen am ariannu datblygu a'r angen am drefniadau cytundebol eraill.<br><br>Er nad yw'n gysylltiedig â gwaith y Tasglu, mae Town Legal LLP wedi cyhoeddi'r ddogfen ganlynol: Simplifying & Standardising Section 106 Agreement Processes: Proposals for Reform - Town Legal<br><br>Yn ogystal, ym mis Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth y DU bod Town Legal LLP hefyd wedi cael contract yn ffurfiol i archwilio templed S106 safonedig ar gyfer safleoedd canolig. Bydd y templed yn nodi'r elfennau sylfaenol a'r cymalau a ddisgwylir yn y rhan fwyaf o gytundebau S106 ar gyfer safleoedd o dan 50 uned. |

| | |
|---|---|
| | Bydd aelodau'r Grŵp Gweithredu ar Argymhellion y Tasglu yn adolygu'r gwaith hwn gyda'r bwriad o ystyried ei rinweddau ar gyfer archwilio ymhellach yng nghyd-destun Cymru. |
| 13. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau ac nid oes angen iddo aros am ymgynghorai statudol os nad yw wedi ymateb o fewn yr amserlen statudol. Mae angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio dull risg wedi'i reoli i benderfynu ar geisiadau, gan bwyso a mesur y risg o her gyfreithiol os nad yw eu penderfyniad wedi aros am gyngor gan ymgynghorai statudol. Dylai awdurdodau lleol gyflawni'r amodau cynllunio o fewn 8 wythnos. | Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gyfrifol am rannu'r arferion gorau mewn perthynas â'r dull risg a reolir ac â phrofiadau ehangach wrth ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n barhaus mewn darparu adnoddau i ymgyngoreion statudol er mwyn cefnogi eu cylchoedd gwaith fel ymgyngoreion. |
| 14. Dylid delio â'r gwaith o ryddhau amodau Cyrff Cymeradwyo SuDS (SAB) ochr yn ochr ag amodau technegol eraill ar yr adeg briodol yn y broses – nid ar y dechrau. | Mae Canllawiau SuDS statudol diwygiedig wedi'u cwblhau – a bwriedir eu cyhoeddi cyn diwedd Tymor y Senedd.<br><br>Bydd y canllawiau yn cynnwys pwyslais ar gynnal 'gwiriadau hyfywedd cyn-ymgeisio' ar y chwe safon SAB.145, a hynny yn gynnar yn y broses.<br><br>Mae cydlynu rhwng swyddogion cynllunio a swyddogion SAB yn nodwedd allweddol sy'n cael ei chryfhau.<br><br>Bydd canllawiau hefyd yn cynnwys mesurau i helpu datblygwyr bach sy'n cael trafferth gyda gofynion SAB cynnar sy'n rhy dechnegol. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Gymdeithas SAB newydd yn adolygu'r broses gyfan o ran cyfrifo'r swm gohiriedig, sy'n cynnwys y Cyrff Cymeradwyo SuDS ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. |
| 15. Gan gydnabod bod y broses SAB yn dal yn gymharol newydd ac yn parhau i esblygu, dylai Llywodraeth Cymru a CLILC ddarparu adolygiad o'r arferion gorau a datblygu rhestr o ddeg peth i'w cofio ar gyfer proses gwneud cais SAB. | Mae Cymdeithas SAB Cymru sydd newydd ei ffurfio (pob un o'r 22 SAB) eisoes yn drafftio canllaw cenedlaethol sy'n cynnwys 'awgrymiadau defnyddiol / pethau y dylid ac na ddylid eu gwneud'.<br><br>Mae adolygiad llawn o ffioedd SAB ar y gweill, wedi'i gydlynu gan y Gymdeithas SAB gyda chyfranogiad CLILC. |
| *Mae'r holl bartïon yn cytuno nad oes gan awdurdodau lleol y capasiti na'r arbenigedd sydd eu hangen arnynt ar draws pob maes. Ar hyn o bryd, ar ran Llywodraeth Cymru, mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yn asesu lle ceir bylchau mewn sgiliau. Caiff y dystiolaeth hon ei defnyddio i lywio atebion, a ddylai gynnwys yr angen i gynghorau rannu adnoddau er mwyn llenwi'r bylchau mewn capasiti ac arbenigedd. Mae'r enghraifft o fwynau a gwastraff, lle mae un awdurdod arweiniol yn cronni adnoddau er mwyn gwasanaethu eraill, yn gynsail i'w dilyn, a dylai gweithio ar y cyd fod yn digwydd fel mater o drefn yn hytrach na bod yn eithriad.*<br><br>16. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol nodi meysydd lle gellir | Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) wedi cwblhau ei adroddiad asesu sgiliau ac wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried. |

| | |
|---|---|
| lliniaru bylchau o ran sgiliau a chapasiti drwy gydlafurio. Os oes cytundeb i gydlafurio, dylai cyllid gefnogi hyn. Mae angen adolygu'r trefniadau ar ôl cyfnod penodol er mwyn profi eu heffeithiolrwydd. | |
| 17. Dylid codi'r trothwy ar gyfer datblygiadau mawr yng Nghymru i 50 o anheddau, yr un fath â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i ymyrryd, a dylai ddefnyddio'r rheini i greu cynllun dirprwyo cenedlaethol os bydd hyn yn aneffeithiol. Dylai'r gwaith ddechrau gyda CLILC i ddatblygu un. | Cafodd y cynnig hwn ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar y newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025.<br><br>Gellir dod o hyd i grynodeb o'r ymatebion yma.<br><br>Roedd llawer o'r pynciau a drafodwyd yn yr ymgynghoriad, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â thai fforddiadwy, yn destun barn wahanol gan randdeiliaid a bydd angen gwneud rhagor o waith o ran datblygu'r polisi ac amserlennu'r ddeddfwriaeth ddilynol cyn y gallant symud ymlaen i gael eu gweithredu. |
| **Mesurau tymor byr** | |
| 18. Rhaid i landlordiaid cymdeithasol sicrhau bod data ar raglenni datblygu yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn gywir ar y porth, a dylai hyn fod yn amod ar gyfer talu. Bydd hyn yn sicrhau bod cyllid yn llifo'n effeithiol ac yn gyflym, a bydd yn nodi'r problemau a'r gefnogaeth sydd eu hangen yn gynharach yn y broses er mwyn gallu blaenoriaethu penderfyniadau. | Ystyriodd y Tasglu fod y Porth Cartrefi a Lleoedd yn offeryn allweddol o ran galluogi awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu gwybodaeth ar gyfer olrhain, rheoli ac asesu risgiau rhaglenni cyfalaf a ariennir gan Lywodraeth Cymru – ac yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r targed o ddarparu 20,000 o gartrefi ychwanegol i'w rhentu yn y sector cymdeithasol.<br><br>Ers cyhoeddi adroddiad y Tasglu, mae'r Porth wedi datblygu i fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth fyw, ddibynadwy a helaeth. |

| | |
|---|---|
| | Bydd swyddogion yn darparu hyfforddiant pellach i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn y flwyddyn sydd i ddod i sicrhau cefnogaeth barhaus wrth ddarparu data portal cywir ac amserol ar raglenni datblygu.<br><br>Cafodd data a dynnwyd o'r Porth eu gwirio gan ystadegwyr swyddogol, a chyfeirir at y data hyn yn yr ystadegau diweddar ar Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy. |
| 19. Dylai awdurdodau lleol fod ag un swyddog cartrefi gwag penodol o leiaf. | Mae'r grŵp gweithredu yn croesawu'r ymrwymiad cynyddol gan awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thai/eiddo gwag.<br><br>Nodi'r bod mwy o Awdurdodau Lleol erbyn hyn yn cael swyddogion penodedig.<br><br>Cydnabyddir y gall swyddog cartrefi gwag fod â chylch gwaith ehangach, megis delio â materion iechyd yr amgylchedd neu reoli cynlluniau fel Cynllun Prydlesu Cymru. |
| 20. Dylai Llywodraeth Cymru lunio canllawiau clir ar y ffyrdd y gall awdurdodau lleol ddelio ag eiddo gwag, a dylai archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio gwasanaethau achyddiaeth i gaffael eiddo gwag hysbys yn gynt. | Cafodd Llawlyfr Eiddo Gwag yng Nghymru newydd Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi ar 5 Rhagfyr 2025.<br><br>Mae Adnodd 4 o fewn y llawlyfr yn darparu 'Rhestr Wirio Olrhain Perchennog', sy'n cynnwys cam gweithredu i 'holi gyda'r génelogydd / helewyr etifeddion.....'. |
| 21. Dylai tai cymdeithasol yr ystyrir eu bod yn wag ac sy'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol er mwyn gallu cael eu defnyddio eto gael eu hystyried yn yr un modd â | Ym mis Mai, derbyniodd Gweinidogion Cymru yr argymhelliad gan y Tasglu y dylid trin **unedau**o dai cymdeithasol gwag a ariennir gan y Rhaglen |

| | |
|---|---|
| chaffael, a dylid eu hariannu drwy'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP). Yn hytrach na bod mewn perygl o gael eu gwerthu fel rhai aneconomaidd neu gael eu gadael yn wag yn y tymor hir, dylid dod â nhw'n ôl i'w defnyddio fel mater o flaenoriaeth a'u cyfrif fel rhan o darged Llywodraeth Cymru i gael 20,000 o gartrefi ychwanegol ar gyfer rhent cymdeithasol – bydd hyn yn sicrhau bod cyllid yn cael ei arwain gan ganlyniadau a bod y targed yn adlewyrchu'r polisi gorau. | Gyfalaf Llety Trosiannol yn yr un modd â chaffaeliadau, ac y dylid eu cynnwys o fewn y targed o 20,000.<br><br>Heb fuddsoddi yn yr eiddo hyn er mwyn dod â nhw'n ôl i ddefnydd, gallent fod wedi cael eu gwerthu a'u colli'n gyfan gwbl o'r stoc dai yn y sector cymdeithasol. Ers dechrau'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol yn 2022-23, erbyn mis Mawrth 2025 roedd 936 o eiddo gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd drwy'r rhaglen, a rhagwelir y bydd 136 arall wedi dod yn ôl i ddefnydd erbyn diwedd mis Mawrth 2026.<br><br>Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi cyllideb ddangosol o £50 miliwn ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol yn 2026-27. Mae'r profiadau hyd yma wedi dangos – er mwyn cyflawni cymaint â phosibl, gan gynnwys nodi tai gwag strategol – fod y sector yn elwa ar gael cymaint o rybudd ymlaen llaw â phosibl er mwyn paratoi. |
| 22. Dylai landlordiaid cymdeithasol nodi cyfleoedd i gynnwys addasiadau i'r atig yn eu rhaglenni. | Trefnodd Cartrefi Cymunedol Cymru weminar gyda'i aelodau, Loft Pro a swyddogion Llywodraeth Cymru, i hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys addasiadau i atigau yn eu rhaglenni – ac mae gwaith bellach ar y gweill i archwilio sut y gall cyllid o'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol gefnogi cynigion. |
| 23. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio'n gynhyrchiol gyda'r sector i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r safonau. Dylai swyddogion gwrdd â landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr yn rheolaidd i ystyried cynigion fesul achos, gan gydnabod bod angen brys am ragor o gartrefi. Dylai'r canfyddiadau o'r adolygiadau fesul achos gael eu cyfleu i | Mae trefniadau partneriaeth cryf ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector tai ar safonau tai, a hynny drwy sianeli ymgysylltu a gwybodaeth ffurfiol a thrwy ymgysylltu ad-hoc.<br><br>O ran y llety a ddarperir drwy'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol, mabwysiedir ymagwedd hierarchaidd tuag at safonau, gan gydnabod efallai na fydd modd sicrhau cydymffurfedd llawn bob amser: |

| | |
|---|---|
| bob landlord cymdeithasol, a phan fo angen dylid eu troi'n safonau diwygiedig er mwyn mynd i'r afael â themâu sy'n codi dro ar ôl tro wrth drosi adeiladau sy'n bodoli eisoes. Byddai hyn wedyn yn rhoi sicrwydd i landlordiaid cymdeithasol ac yn atal Llywodraeth Cymru rhag arafu'r cynnydd drwy orfod adolygu nifer sylweddol o gynlluniau.<br><br>Os yw datblygwyr yn teimlo bod defnyddio'r safonau yn rhwystro cyfleoedd datblygu ystyrlon, dylid codi hyn yn y cyfarfodydd y cynigiwyd i'w cynnal ddwywaith y flwyddyn gydag Ysgrifennydd y Cabinet. | • WDQR 2021 – yn llawn neu gydag amrywiadau y cytunwyd arnynt.<br>• SATC – yn llawn neu gydag amrywiadau y cytunwyd arnynt a/neu amserlenni y cytunwyd arnynt.<br><br>Ffefrir cartrefi hunangynhwysol, ond er mwyn ymateb yn gyflym mae'n bosibl, o dan rai cynlluniau, y caiff llety eu darparu nad ydynt yn hunangynhwysol i ddechrau, ac sydd o safon is nag WDQR 2021/SATC. Mewn achosion o'r fath, rhaid i landlordiaid cymdeithasol arddangos cydymffurfedd â'r safon leiaf y cytunwyd arni a nodi sut y bydd y cynllun yn cyflawni SATC, o leiaf, o fewn 10 mlynedd a, phan fo'n bosibl, WDQR 2021.<br><br>Mae sawl cynllun sy'n gofyn am hyblygrwydd wedi cael eu cymeradwyo fesul achos, gan gynnwys cynllun Codi i gaffael Boutique Student Living (sef adeilad Sun Alliance), sy'n cynnwys 80 o unedau hunangynhwysol dros chwe llawr. Yn yr adeilad, sydd wedi bod yn weithredol ers 2022, darperir llety o safon uchel sy'n sylweddol uwch na safon y llety dros dro a ddarperir ar hyn o bryd, megis llety gwely a brecwast. Bydd y caffaeliad yn diwallu'r anghenion llety â chymorth uniongyrchol, ac ar yr un pryd bydd modd cadw opsiwn hirdymor hyfyw i'w trosi i dai sy'n cydymffurfio â WDQR, os bydd y galw am ddarpariaeth â chymorth yn lleihau.<br><br>Mae gan landlordiaid a datblygwyr gyfle hefyd i godi unrhyw bryderon ynglŷn â'r prosesau presennol yn y Fforwm Cartrefi'r Dyfodol a Fforwm Datblygu'r AL yn ogystal â unrhyw gyfarfodydd anffurfiol a drefnwyd i bawb.<br><br>Cafwyd cyfleoedd i drafod materion penodol ac ehangach sy'n ymwneud â safonau yn ystod cyfarfodydd bord gron rhanbarthol Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol hefyd – a gynhaliwyd ledled Cymru gydag aelodau a swyddogion arweiniol tai o'r awdurdodau lleol (ac a fynychwyd hefyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig). |

| **Mesurau tymor canolig** | |
|---|---|
| 24. Mae angen gwneud E-PIMS yn weithredol a'i gynnal i wasanaethu fel cronfa ddata fyw er mwyn helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. | Mae E-PIMS yn blatfform Llywodraeth y DU sy'n cael ei weinyddu gan Swyddfa'r Cabinet. Mae wedi cael ei ddisodli yn ddiweddar gan blatfform newydd o'r enw InSite. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i dalu tanysgrifiad blynyddol er mwyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gael mynediad ato am ddim. Er bod fersiwn gychwynnol (lansio) yn weithredol, fel cynnyrch fe fydd yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae'r asedau a gofnodwyd yn flaenorol wedi mudo ar draws, ac wrth baratoi, drwy Ystadau Cymru fe wnaethom atgoffa defnyddwyr yn y sector cyhoeddus i ddiweddaru eu cofnodion. Nid yw tynnu sylw at berchnogaeth tir, ar ei ben ei hun, o reidrwydd yn arwain at ddatblygu. Felly pwysig yw nodi bod y broses farchnad fewnol – lle mae cyrff sector cyhoeddus yn cynnal eiddo sydd ar gael – yn parhau i'r system newydd a bod bwrdd Ystadau Cymru yn dal i argymell defnyddio'r broses honno.<br><br>Ar wahân i blatfform InSite Llywodraeth y DU, mae Is-adran Data a Daearyddiaeth Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwella'u cynnig mapio ar-lein – MapDataCymru – sydd ar gael yn eang i sector cyhoeddus Cymru. Maent eisoes wedi cynnwys ffiniau perchnogaeth Cofrestrfa Tir EF ar gyfer y sector cyhoeddus ac maent yn gobeithio y gellir eu gwneud yn weladwy i'r holl ddefnyddwyr yn y sector cyhoeddus, yn amodol ar gymeradwyaeth Cofrestrfa Tir EF. Mae gwybodaeth ychwanegol a allai helpu gyda deall potensial datblygu hefyd yn cael ei hychwanegu, megis troshaenau cynlluniau datblygu lleol. Mae gwelliannau ac ychwanegiadau yn parhau i gael eu gwneud (megis mapiau seilwaith gwasanaeth), yn amodol ar sicrhau cyllid datblygu pellach. |
| 25. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu cyflenwad o dir addas sydd ar gael gydag awdurdodau lleol, byrddau | Mae Is-adran Lleoedd Llywodraeth Cymru wedi cyflogi ymgynghorwyr eiddo i ymchwilio i gyfleoedd safle ar draws daliadau'r sector cyhoeddus a daliadau'r sector preifat yng Nghymru. Mae proses diwydrwydd dyladwy ar |

| | |
|---|---|
| iechyd, Trafnidiaeth Cymru a cheidwaid tir cyhoeddus eraill fel y Weinyddiaeth Amddiffyn. Dylai'r Is-adran Tir fynd ati'n rhagweithiol i nodi tir y gellir ei ddatblygu. Mae angen cadw cofrestr o dir nad yw'n cael ei ddefnyddio, a defnyddio'r gofrestr fel sail ar gyfer cynllunio strategol. | y gweill mewn perthynas â nifer o leoliadau allweddol er mwyn darparu cyflenwad posibl ar gyfer datblygu yn y dyfodol.<br><br>Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol wedi cynnal cyfarfodydd gyda phob bwrdd iechyd y GIG i ysgogi adolygiad o addasrwydd safleoedd. Aeth swyddogion yr Is-adran Lleoedd ar drywydd hyn gyda chydweithwyr ystadau yn y byrddau iechyd, ac er na nodwyd unrhyw safleoedd yn uniongyrchol, efallai y bydd posibiliadau tymor hwy mewn rhai lleoliadau.<br><br>Mae Ystadau Cymru yn parhau i argymell bod pob corff sector cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio'r gofrestr asedau dros ben o fewn y platfform InSite. Mae'n cyflawni rôl offeryn marchnata mewnol ar gyfer eiddo gwag ac eiddo dros ben yn y sector cyhoeddus. |
| 26. Dylai tir sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus fod ar gael am ddisgownt os yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer nifer sylweddol o gartrefi cymdeithasol. | Gan weithio o fewn ymbarél rheoleiddiol caffael cyhoeddus, mae'r Is-adran Lleoedd (Llywodraeth Cymru) wedi bod yn treialu gwaredu tir datblygu tai, gan ymgorffori gofynion polisi. Yn nodweddiadol, mae safleoedd yn cael eu marchnata gyda chais am dai fforddiadwy ychwanegol (o leiaf 50%) a gofyniad i'w darparu i safonau ansawdd dylunio, ynghyd â nodau cynaliadwyedd. Mae'r marchnata'n gyrru arloesedd a chaiff y gofynion ychwanegol eu hadlewyrchu mewn pris cyfnewid sy'n is ond sy'n cyflawni'r gwerth gorau yn gyffredinol. |
| 27. Dylai Llywodraeth Cymru a CLILC gydweithio â phartneriaid i sefydlu tîm cyflawni 'lle bo'r angen', a fydd yn cefnogi'r sylfeini cyfreithiol a chaffael ar gyfer dod â | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â gwaith cyrff cyhoeddus o ran nodi darpar safleoedd (na wneir digon o ddefnydd ohonynt). Gweler argymhelliad 25. |

| | |
|---|---|
| safleoedd ymlaen ar gyfer tai dros dro o ansawdd uchel. | |
| 28. Ar hyn o bryd, dim ond am flwyddyn y mae Hawliau Datblygu a Ganiateir yn caniatáu i ddatblygiadau fodoli heb ganiatâd cynllunio llawn. Mae'r panel yn credu y dylid ymestyn hyn i saith mlynedd o ystyried cymhlethdod y gwaith o ddatblygu safleoedd. | Cafodd y cynnig hwn ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar y newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025.<br><br>Gellir dod o hyd i grynodeb o'r ymatebion [yma](#).<br><br>Roedd llawer o'r pynciau a drafodwyd yn yr ymgynghoriad, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â thai fforddiadwy, yn destun barn wahanol gan randdeiliaid a bydd angen gwneud rhagor o waith o ran datblygu'r polisi ac amserlennu'r ddeddfwriaeth ddilynol cyn y gallant symud ymlaen i gael eu gweithredu. |
| 29. Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu premiymau treth gyngor o ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir, gan nodi'r swm a godwyd a sut y cafodd ei wario. Dylai Llywodraeth Cymru osod disgwyliad fod y dreth yn cefnogi atebion tai fforddiadwy i bobl leol. Gall hyn gynnwys prynu tai oddi ar y farchnad agored mewn ardaloedd poblogaidd. | Mae disgwyliad eisoes i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar hyn, yn unol â Rhan 3 o'r canllawiau hyn: [Treth gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi [HTML] \| LLYW. CYMRU.](#)<br><br>Gweler argymhelliad 30 am ragor o fanylion. |
| 30. Mae llawer o gynghorau sy'n rheoli eu stoc eu hunain o dai fforddiadwy o blaid clustnodi'r cyllid ychwanegol a godir o'r dreth ail gartrefi ar gyfer tai cymdeithasol | Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei chefnogaeth i'r dull hwn o weithredu, ac fel enghraifft gyntaf fe gytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, ar 5 Chwefror, i gais Cyngor Sir Penfro i symud |

| | |
|---|---|
| drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Dylai Llywodraeth Cymru a CLILC edrych rhagor ar hyn. | arian o'r premiwm ail gartrefi i'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae Cyfarwyddyd ffurfiol i'r cyngor yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. |
| **Mesurau tymor hwy** | |
| **Cyflenwad tir** | |
| 31. Dylai tir y nodir ei fod yn addas ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol fod â rhagdybiaeth o blaid datblygu. Bydd y newid hwn i alluogi 'Caniatâd mewn Egwyddor' yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol ac mae angen ei gyd-gynhyrchu gyda'r awdurdodau lleol. | Ni fydd yn bosibl symud ymlaen i ystyried yr argymhelliad hwn yn ystod y Tymor hwn o'r Senedd, oherwydd pwysau amser a chan nodi y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i weithredu unrhyw newid. Bydd hynny'n fater i'r llywodraeth nesaf. |
| **Cynllunio tymor hir i fynd i'r afael â digartrefedd** | |
| 32. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol a Chynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr ag adroddiad cynnydd blynyddol er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu yn erbyn yr anghenion a nodir yn y dogfennau hyn – yn enwedig ar gyfer pobl sy'n ddigartref ac yn byw mewn llety dros dro. | Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol a Chynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym. Mae'r awdurdodau lleol yn eu tro yn adrodd ac yn cyhoeddi ystod o wybodaeth am ddarparu tai yn ystod y flwyddyn gan gynnwys yn erbyn eu strategaethau tai, adroddiadau Cyfrif Refeniw Tai a defnyddiau treth gyngor rhagori i sicrhau bod cyllid yn cael ei neilltuo yn erbyn y angen a nodwyd.<br><br>Mae'r Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn rhan o'r trafodaethau rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol, ac maent yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer dyfarnu a dyrannu cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru. At hynny, maent yn llywio Cynlluniau Datblygu Lleol – a Chynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| 33. Rhaid i Lywodraeth Cymru adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Ailgartrefu Cyflym ynghylch y ffordd orau o adlewyrchu data ar anghenion digartrefedd wrth gynllunio cyflenwadau, gan sicrhau bod y cyflenwad tai i fynd i'r afael ag anghenion pobl leol ddigartref yn cael ei flaenoriaethu'n briodol. | Bydd data ar ddigartrefedd yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o'r offeryn Asesu'r Farchnad Tai Leol diweddaredig, a byddant yn flaenllaw hefyd yn y canllawiau cysylltiedig a fydd ar gael yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| **Cyllid** | |
| 34. Gall yr angen am sicrebau i liniaru pan fydd methiant ariannol gan ddatblygwr gael effaith sylweddol ar gyflawni cynlluniau tai fforddiadwy mewn da bryd ac yn anaml y cânt eu defnyddio. Nid yw'r rhain yn ateb diben defnyddiol pan fydd y cynlluniau'n cael eu datblygu gan landlord cymdeithasol cofrestredig ac ni ddylent fod yn berthnasol mwyach. | Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, gan weithio ochr yn ochr â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, Cartrefi Cymunedol Cymru, Swyddogion Cynllunio Cymru a Dŵr Cymru, wedi ymgymryd â gwaith i archwilio'n fanylach ddulliau ac arferion cyfredol.<br><br>Ond nid yw'r gwaith hwn wedi dod i ben. Yr hyn sy'n amlwg yw bod trefniadau gwahanol yn bodoli ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol, ac mewn perthynas â gwahanol fathau o sicrebau.<br><br>Yn fwyaf uniongyrchol, mae'r gwaith yn canolbwyntio ar sicrebau ar gyfer Cytundebau Priffyrdd a Chytundebau SAB, ac mewn perthynas â thai fforddiadwy o dan arweiniad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. |
| 35. Yn yr un modd, mae Bondiau Perfformiad wedi bod yn ofynnol ar gyfer gwaith sector cyhoeddus a wneir gan fusnesau bach a chanolig, ond mae'r panel wedi clywed bod y bondiau hyn yn gynyddol anodd a chostus i'w cael ac y | Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Banc Datblygu Cymru i ymgymryd â'r gwaith ymchwil hwn. Mae'r gwaith ymchwil yn mynd rhagddo. |

| | |
|---|---|
| gallent gael effaith ddi-fudd ar fusnesau bach a chanolig llai o faint. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu darn o waith ymchwil i asesu a yw'r canfyddiad hwn o fethiant y farchnad yn gywir ac i benderfynu ar y camau nesaf, gan gynnwys ystyried a yw cael Llywodraeth Cymru i danysgrifennu yn fater hyfyw. | |
| 36. Rhaid i Fanc Datblygu Cymru chwarae mwy o ran mewn darparu cyllid ar gyfer tai cymdeithasol. Mae rhan benodol i Fanc Datblygu Cymru ei chwarae o ran cefnogi busnesau bach a chanolig. Mae rhanddeiliaid yn dweud eu bod yn cael trafferth ymgysylltu â'r banc ac maent yn teimlo nad ydynt yn deall y sector. | Mae Banc Datblygu Cymru yn cefnogi'r sector tai wrth ddarparu cyllid cystadleuol ar gyfer datblygu tai.<br><br>Mae eu cronfeydd datblygu eiddo yn cynnig cefnogaeth i ddatblygwyr bach a chanolig sy'n aml yn rhychwantu tai preifat a thai fforddiadwy/cymdeithasol.<br><br>Maent hefyd wedi gweithio ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu cynlluniau deiliadaeth gymysg ar sail cyllid cydweithredol.<br><br>Mae Banc Datblygu Cymru yn gweithio gyda nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig drwy'r Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid ac maent wedi cymryd drosodd y gwaith o reoli portffolio o fenthyciadau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar ran Llywodraeth Cymru.<br><br>O ran tir sydd sy'n eiddo cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar sut y gall drosoli'r partneriaethau rhwng Banc Datblygu Cymru a busnesau bach a chanolig a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn cyflawni prosiectau tai cost-effeithiol y gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu prynu ar ôl iddynt gael eu cwblhau. |

| | |
|---|---|
| | Mae gan Fanc Datblygu Cymru hanes cryf o weithio gydag ystod eang o gyllidwyr yn y sector cyhoeddus ac yn y sector preifat. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn archwilio, ar y cyd â Banc Datblygu Cymru a Thrysorlys Cymru, ffyrdd o leihau'r risg sydd ynghlwm wrth gostau cynllunio ymlaen llaw/arfyrddio drwy sicrebau/bondiau/cymorth gwarant. |
| 37. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu'r newid y bu'n ymgynghori arno y llynedd a rhoi rhyddhad ar Dreth Trafodiadau Tir i Awdurdodau Lleol sy'n caffael eiddo at ddibenion tai cymdeithasol – yn union fel y mae eisoes yn ei wneud ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. | Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu effeithiolrwydd y rhyddhad treth trafodiadau tir a ddarperir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar hyn o bryd ac yn ystyried opsiynau ar gyfer cynllun rhyddhad treth trafodiadau tir i awdurdodau lleol Cymru. Bydd unrhyw newidiadau yn fater i'r Llywodraeth nesaf ei ystyried. |
| 38. Dylid datblygu dull gweithredu safonol ar gyfer cymalau eithrio morgeisai, gan ddileu'r angen i negodi'r eitem hon ar ddogfennau cynllunio yn y dyfodol. Dylai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai weithio gyda'i gilydd, ynghyd â phartneriaid yn y diwydiant adeiladu, i ddatblygu un. | Mae gweithgor landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi'i sefydlu ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran dwyn partneriaid perthnasol ynghyd, gan gynnwys ymgynghorwyr a benthycwyr, i ddangos yr effaith bosibl y gallai hyn ei gyflawni o ran cefnogi'r cyflenwad. Fodd bynnag, mae'r mater yn parhau i fod yn gymhleth a bydd angen ymgynghori ymhellach â'r awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol er mwyn archwilio atebion sy'n seiliedig ar yr arferion gorau, ac sy'n bodloni'r holl bartïon. |

| **Sgiliau** | |
|---|---|
| 39. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol nodi sut y | Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu ac wedi cyhoeddi cylchlythyrau/erthyglau er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd. |

| | |
|---|---|
| gellir mabwysiadu enghreifftiau o arferion da yn eu hardaloedd. | |
| 40. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Gymdeithas Tai nodi camau y gallant eu cymryd i gyfrannu at ddatblygu ffrwd sgiliau. | Mae cyfleoedd a chefnogaeth wedi'u nodi ar ôl ymgynghori â'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig drwy Raglen Sgiliau Hyblyg Llywodraeth Cymru – bydd cyhoeddiad pellach cyn diwedd y flwyddyn ariannol. |
| 41. Dylid adfer y Brentisiaeth Lefel 2 mewn Adeiladu. | Mae'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi cadarnhau y bydd llwybrau prentisiaeth lefel 2 newydd mewn gosod briciau, gwaith coed, sgaffaldiau a chynnal a chadw adeiladau yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach eleni, gan wella mynediad – ar lefel mynediad – at y crefftau hanfodol.<br><br>Mae Medr hefyd wedi cyflwyno ystod o ficro-gymwysterau er mwyn ategu prentisiaethau, ac mae dros 30 ohonynt yn ymwneud â'r sector amgylchedd adeiledig. |